

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

11 Hydref 2020
Trindod XVIII

CYHOEDDIADAU'R SUL

HEDDIW

Cynhelir gwasanaeth o'r Foreol Weddi heddiw am 9.00am yn EDS. Byddwn yn e-bostio'r linciau i'r gwasanaethau sydd ar ffurf podlediad. Maen nhw hefyd i'w cael ar wefan yr eglwys.

DIOLCH

Diolch i Ann Mears am osod y blodau ar yr allor ar gyfer ein gwasanaeth Diolchgarwch yn yr eglwys y Sul diwethaf. (Gweler clawr Cloch Dewi am y llun)

GWASANAETHAU YN EDS A'R AIL GYFNOD CLO

Os yr ydych yn byw o fewn ardal Cyngor Caerdydd mae modd i chi ddod i EDS ond nid os ydych yn byw y tu allan i'r ardal hon gan fod Caerdydd, fel rhannau helaeth o Dde Cymru yn parhau o dan gyfyngiadau llymion.

Am ragor o wybodaeth am y cyfyngiadau ewch i:
<https://llyw.cymru/cyfnod-clo-ardal-cyngor-caerdydd-cwestiynau-cyffredin>

GWASANAETH SUL NESAF YN EDS

Os ydych yn bwriadu dod i'r gwasanaeth y Sul nesaf gofynnwn yn garedig i chi hysbysu Marian Fairclough (e-bost: faircloughmarian@gmail.com; rhif ffôn: 029 2088 5151) **erbyn 4pm y Sadwrn cynt. Wedi iddi dderbyn eich neges** bydd Marian yn rhoi gwybod i chi bod sedd wedi'i neilltuo ar eich cyfer. Gwnewch yn siŵr eich bod yn derbyn y cadarnhad hwn cyn mentro i'r eglwys rhag ofn na fydd lle i chi. **Unwaith fydd y seddi i gyd wedi'u llenwi ni fydd modd i ni adael i unrhyw un arall ddod i mewn i'r eglwys.** Cofiwch y bod yn rhaid i chi wisgo mwgwd yn ystod gwasanaeth yn yr eglwys.

CLOCH DEWI

Y mae rhifyn cyfredol o Gloch Dewi wedi'i anfon allan naill ai trwy e-bost neu trwy'r post. Os nad ydych wedi derbyn eich copi, a wnewch chi gysylltu â Rhys Jones os gwelwch yn dda.

COFFI A CHLONC

Cynhelir ein sesiwn Coffi a Chlonc dros Zoom fore Sadwrn 17 Hydref gan ddechrau am 10.30am. Os

hoffech ragor o wybodaeth a/neu fanylion cysylltu â'r cyfarfod mynnwch air â Siân Thomas thomasse2@hotmail.com. Mae croeso i bawb. Cofiwch i ddod â'ch coffi eich hun.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig dros Zoom nos Lun 12 Hydref am 7.00pm.

GWASANAETH SUL NESAF YN YR EGLWYS

18 Hydref 2020
Gŵyl Sant Luc (Efengylwr)
9.00 am – Y Cymun Bendigaid

GWASANAETHAU HEDDIW: TRINDOD XVIII

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn ymddangos gyda'r e-bost fydd yn cynnwys y daflen hon. Hefyd mae modd ymweld â gwefan yr eglwys i ddod o hyd i'n gwasanaethau ar lein.

Bydd podlediad o'r Hwyrdd Weddi am 6pm heno yn ôl yr arfer. Bydd y linc yn cael ei anfon allan yn hwyrach yn y prynhawn.

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwch yn ein gweddïau y cleifion: John Hicks, Rob James, Margaret Jones, Sally Lewis, Catrin Morgan, John Morgan, Nia Roberts, Ceri Saunders, Dawn Parry Sawdon, Gwen Thomas, Jack Thomas (Offeiriad), Joan Thomas, ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Morfydd Jones a phawb y cofiwch am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrdd Weddi (glas tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

Y Foreol Weddi:

Salm 104:1-15
Eseciel 34: 34:17-24
Mathew 11:25-30

Yr Hwylol Weddi:

Salm 141

Eseia 50:4-10

Luc 13:22-30

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y Diolchgarwch

Thema: Ysbrydolrwydd y Cread

Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder: y byd ac a breswylia ynddo. *Salm 24:1*

Deuwn ynghyd ar lun y Creawdwr
sydd yn gymuned o gariad.

Deuwn ynghyd yn enw'r Iachawdwr
sy'n cymodi'r holl gread.

Deuwn ynghyd ym mhresenoldeb Rhoddwr Bywyd
sy'n ysgogi bywyd newydd ac yn adnewyddu bywyd.

Salm 104

Fy enaid, bendithia'r Arglwydd!

**Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn eu bryd.
Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.**

Yr wyt yn gwneud i'r lleuad nodi'r tymhorau; ac i'r haul wybod pryd i fachlud. Trefnaist dywyllwch, fel bod nos, a holl anifeiliaid y goedwig yn ymlusgo allan.

**Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn eu bryd.
Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.**

Mae'r llewod ifanc yn rhuo am ysglyfaeth, ac yn ceisio eu bwyd oddi wrth Dduw. Ond pan gyfyd yr haul, y maent yn mynd ymaith, ac yn gorffwyso yn eu ffeiau. A daw pobl allan i weithio, ac at eu llafur hyd y hwyrnos.

**Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn eu bryd.
Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.**

Yr wyt yn dyfrhau'r mynyddoedd o'th balas. Yr wyt yn gwneud i ffynhonnau darddu mewn hafnau. Yn gwneud iddynt lifo rhwng y mynyddoedd; rhônt ddiod i holl fwystfilod y maes.

Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn eu bryd.

Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

Yr wyt yn gwneud i'r gwellt dyfu i'r gwartheg, a phlanhigion at wasanaeth pobl, i ddwyn allan fwyd o'r ddaear, a gwin i lonni calonnau pobl, olew i ddisgleirio'u hwynebaw, a bara i gynnal eu calonnau.

Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn eu bryd.

Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

Digonir y ddaear trwy dy ddarpariaeth.

Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn eu bryd.

Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr. Bydded gogoniant yr Arglwydd dros byth.

Y Gyffes

Molwn di o Dduw, am y Ddaear sy'n cynnal bywyd. Trwy gylchredau'r blaned o ddyddiau a thymhorau, adnewyddiad a thwf, yr wyt yn agor dy law i roi i'r holl greaduriaid ein bwyd yn ei bryd.

Ond mae ein ffordd o fyw yn gwthio'r blaned y tu hwnt i'w therfynau. Nid ydym wedi caniatáu i'r tir cael seibiant, ac mae'r Ddaear yn ochneidio am adnewyddiad. Ac felly cyffeswn:

**Kyrie eleison,
Kyrie eleison,
Kyrie eleison**

Dduw trugarog a chyfiawn, yr wyt yn datgan mai mewn digon mae ein diogelwch. Cyffeswn na fuom yn ddigon dewr i wrthsefyll chwedl twf di-ben-draw.

**Trugarha wrthym,
Trugarha wrthym
Trugarha wrthym
O ein Duw.**

Fe'n gelwi i adael digon ffrwyth ar y winwydden ac yn y caeau i fwydo'n cymdogion a'r anifeiliaid, ac i atgyflenwi'r Ddaear. Cyffeswn i ni fethu â rhannau'r hyn a dderbyniwn o'r Ddaear.

**Kyrie eleison,
Kyrie eleison,
Kyrie eleison**

Yr wyt yn ein galw i weithredu'n deg a chyfiawn. Cyffeswn ein diffyg ffydd, ac nad ydym yn dy garu di

â'n holl feddwl, nac yn caru ein cymdogion, yn bobl ac yn greaduriaid eraill, fel ni ein hunain.

**Trugarha wrthym,
Trugarha wrthym
Trugarha wrthym
O ein Duw.**

Y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddio, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau, ac y mae Duw, sy'n chwilio calonnau dynion, yn deall bwriad yr Ysbryd, mai ymbil y mae tros y saint yn ôl ewyllys Duw. **Amen.**

(Rhufeiniaid 8²⁶⁻²⁷)

Dysgw'n gyda'n gilydd.

Colect

Hollalluog a thragwyddol Dduw, cynyddu ynom dy rodd o ffydd fel, gan adael yr hyn a aeth heibio ac ymestyn at yr hyn sydd o'n blaen, y bydd inni redeg ar hyd ffordd dy orchmynion ac ennill coron llawenydd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Darlleniad o'r Hen Destament: Eseciel 34: 17 – 24

"Amdanoch chwi, fy mhraidd, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: Wele, byddaf fi'n barnu rhwng y naill ddafad a'r llall, a rhwng hyrddod a bychod. Onid yw'n ddigon ichwi bori ar borfa dda heb ichwi sathru gweddill eich porfa â'ch traed, ac yfed dŵr clir heb ichwi faeddu'r gweddill â'ch traed? A yw'n rhaid i'm praidd fwyta'r hyn a sathrwyd gennych, ac yfed yr hyn a faeddyd â'ch traed? "Felly, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrthynt: Byddaf fi fy hunan yn barnu rhwng defaid bras a defaid tenau. Oherwydd eich bod yn gwthio ag ystlys ac ysgwydd, ac yn twlcio'r gweiniaid â'ch cynn nes ichwi eu gyrru ar wasgar, byddaf yn gwaredu fy mhraidd, ac ni fyddant mwyach yn ysglyfaeth, a byddaf yn barnu rhwng y naill ddafad a'r llall. Byddaf yn gosod arnynt un bugail, fy ngwas Dafydd, a bydd ef yn gofalu amdanynt; ef fydd yn gofalu amdanynt ac ef fydd eu bugail. Myfi, yr Arglwydd, fydd eu Duw, a'm gwas Dafydd fydd yn dywysog yn eu msg; myfi, yr Arglwydd, a lefarodd.

**Arglwydd mawr y nef a'r ddaear,
Ffynnon golud pawb o hyd,
Arnat ti dibynna'r cread,
D'ofal di sy'n dal y byd;
Am gysuron a bendithion,
Cysgod nos a heulwen dydd
Derbyn ddiolch, derbyn foliant
Am ddaioni rhad a rhydd.**

**Am brydferthwch nef a daear,
Haul a sêr a bryn a dôl,
Ac am gariad mwyn rieni
A chartrefu yn eu côl,
Am fwynderau bywyd ieuanc
A meddyliau pur a glân,
Arglwydd mawr y nef a'r ddaear,
Derbyn ddiolch drwy ein cân.
J. Lloyd Humphreys 1875 – 1947
Cff 93**

Darlleniad o'r Testament Newydd: Mathew 11:25-30

Yr amser hwnnw dywedodd Iesu, "Yr wyf yn dy foliannu di, O Dad, Arglwydd nef a daear, am iti guddio'r pethau hyn rhag y doethion a'r deallusion, a'u datguddio i rai bychain; ie, O Dad, oherwydd felly y rhyngodd dy fodd di. Traddodwyd i mi bob peth gan fy Nhad. Nid oes neb yn adnabod y Mab, ond y Tad, ac nid oes neb yn adnabod y Tad, ond y Mab a'r rhai hynny y mae'r Mab yn dewis ei ddatguddio iddynt. Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau. Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn."

Myfyrdod

"Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn". Mathew 11:28

Yn dilyn ein gwasanaeth o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf y Sul diwethaf, mae ein gwasanaeth y Sul 'ma yn canolbwyntio ar y cread fel rhodd i ni gan Dduw. Fel arfer yn ystod mis Medi mae Eglwysi'r byd, o bob enwad, yn dod ynghyd i ddatlu Tymor y Cread. Mae'r tymor hwn yn canolbwyntio ar ein cyfrifoldebau ni tuag at y greadigaeth ryfeddol hon yr ydym ni yn rhan ohoni. Ac eleni cawn ein galw i ystyried "ysbrydolrwydd y cread". Beth a welwn ni pan edrychwn ni ar y greadigaeth o'n hamgylch? Pan edrychwn ar ei hamrywiaeth, ei heangder, ei phrydferthwch, ei grym, ei manylder. A welwn ni rhywbeth o feddwl y creawdwr ymhlyg yn ei greadigaeth? A welwn ni ein dibyniaeth ar y cread ar gyfer ein byw beunyddiol?

Fel yr aeth y Cloi Mawr rhagddo, a bywydau rhan helaeth o boblogaeth y byd yn dod i ryw fath o stop, neu wedi arafu tipyn – dechreuodd nifer sylwi ar y ffordd yr oedd y greadigaeth yn ymateb. Gyda llai o deithio, gyda llai o draffig, gyda llai o lygredd yn yr awyr – dechreuon ni i gyd weld a chlywed a phrofi'r greadigaeth a'i gwerthfawrogi mewn ffordd newydd.

Clywsom am ddŵr camlasau Venice yn troi'n glir a'r pysgod yn dychwelyd iddynt, a heb y llongau teithio mawr ym Mae Venice daeth y dolffiniaid i chwarae yno. Clywsom am drigolion dinasoedd oedd gynt o dan orchudd o lygredd ceir a diwydiannau trymion yn gweld, am y tro cyntaf, yr awyr las uwch eu pennau. A dwi'n credu bod pob un ohonom wedi mwylhau clywed cân yr adar yn gliriach, a mwylhau bod allan yn yr awyr iach yn treulio mwy o amser yn yr ardd, neu'n mynd allan am dro. Ac os 'dy chi fel fi, dwi'n siŵr y gwnaethoch chi gymryd tipyn o gysur o fwylhau y greadigaeth o'n hamgylch. A nawr bod ni wedi cyrraedd yr Hydref, fe gawn fwylhau y newid yn y lliwiau a ddaw o newid tymhorau wrth i amryw liwiau gwyrdd bywiog yr haf, droi'n lliwiau cyfoethog y coch, melyn a brown a ddaw i ddail y coed yn yr hydref.

Mae edrych a sylwi ar brydferthwch y byd natur o'n hamgylch yn dod â chysur – yn enwedig pan welwn ein hunain yn rhan o'r natur honno, yn rhan o'r greadigaeth ac yn rhan o waith llaw Duw y Creawdwr. Yr ydym yn ddibynnol ar y greadigaeth gyfan i'n cynnal ni.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae nifer wedi dweud bod y Cloi Mawr byd-eang wedi rhoi cyfle i'r greadigaeth iachau ei hun. Dydw i ddim yn argyhoeddedig o hynny. Efallai, fe allwn ni ddweud bod y greadigaeth wedi cael cyfle i ddal ei gwynt, ond dim byd mwy. Fe wyddom fod ein ffordd ni o fyw yn niweidiol ac yn andwyol i'r greadigaeth – llygredd, gwastraff, yr awydd am dwf di-ben-draw, elw, cynnydd. Dydyn ni ddim wedi dysgu byw mewn ffordd sy'n gynaliadwy iawn, sy'n parchu'r greadigaeth, sy'n ystyried y greadigaeth fel rhodd i ni gan Dduw i ofalu amdani a'i gwarchod – ei pharchu nid ei difwyno.

Yn ein darlleniad cyntaf o'r proffwyd Eseciel y bore 'ma, fe glywsom am Dduw yn disgrifio pobl Israel yn annwyl fel praid, ond hefyd yn eu ceryddu am fyw'n wastraffus. Dyma braidd a oedd wedi troi'n afreolus – yn mynnu cymryd y brofa dda ond wrth wneud hynny yn sathru gweddill y borfa o dan draed, fel nad oedd unrhyw beth o werth ar ôl i'r defaid eraill ei fwyta. Dyma braidd, wrth yfed y dŵr clir, oedd yn baeddu'r dŵr, yn ei droi'n fwdlyd a'i lygru, fel na allai gweddill y praid ei yfed. Roedd gweld y grymus ymhlith y praid yn 'strywo popeth i'r gweddill yn cythruddo Duw, nes iddo ddweud wrthynt, "Byddaf fi fy hunan yn barnu rhwng defaid bras a defaid tenau"....ni fydd y gwanaf yn ysglyfaeth i'r grymus mwylhau".

Ac fe allwn ni weld hyn ar waith yn ein byd. Wrth i ni geisio'r gorau o bopeth, wrth i ni gymryd adnoddau'r byd i ddiwallu ein hanghenion, yr ydym ar yr un pryd yn sathru ar y greadigaeth. Caiff coedwigoedd llawn bywyd amrywiol eu troi'n anialwch. Caiff afonydd a'r moroedd eu llygru â chemegau a phlastig. Caiff gweinidiaid eu bwrw allan o'u tiroedd er mwyn i'r grymus gael digon o borfa dda. Yn ein hawydd am gael y pethau da, nid ydym yn meddwl pwy neu beth sy'n dioddef, na chwaith yn gofyn, a ydym yn byw mewn ffordd sy'n deg, ac yn gyfiawn, ac yn gynaliadwy. Nid ydym bob tro yn ystyried o ddifrif ein bod yn rhan o rwydwaith gymhleth y greadigaeth – lle y mae pawb a phopeth yn cyd-ddibynnu ar ei gilydd er mwyn cynnal bywyd – nid yn unig bywyd y ddynoliaeth, ond creaduriaid a phlanhigion eraill.

Yr hyn mae pandemig COVID 19, a orfododd y byd i arafu, wedi'i ddangos i ni yw mor fach yw'r byd bellach. Fe lwyddodd y feirws a ddechreuodd mewn rhan anghysbell o Tsiena i droedio'n galed ar draws y byd – gan effeithio ar fywydau'r rhan helaeth o'i boblogaeth, ei economïau, strwythurau gwleidyddol, a chadwyni cynhyrchu bywyd a strwythurau cludiant. Mae'r pandemig wedi dangos mor ddibynnol yr ydym ar ein gilydd a hefyd mor frau a bregus yw'r rhwydweithiau sydd yn cynnal bywyd y ddynoliaeth. Os oes unrhyw beth da wedi dod allan o'r argyfwng hwn, efallai mai'r awydd i geisio ffordd o fyw sy'n gynaliadwy yw hwnnw. Ffordd o fyw sy'n ein gweld ni gyd yn dysgu troedio'n ysgafn ar y greadigaeth hon, nid ei sathru gan drachwant. "Ein gwaith, a'n tasg fel dilynwyr Iesu Grist", meddai un diwinydd, "yw gofalu am greadigaeth Duw a gweld bod ein lles ninnau wedi'i blethu â'i lles hithau".

Un oedd wedi cymryd yr her hon at ei galon, oedd Sant Ffransis o Assisi, a hynny cyn belled yn ôl â'r ddeuddegfed ganrif. Cafodd ei eni i fasnachwr sidan llwyddiannus. Roedd ei fagwraeth yn un foethus, doedd angen dim arno. Mwynhaodd holl ddanteithion bywyd. Yn ŵr ifanc fe ymunodd â'r fyddin, ond cafodd ei ddal gan y gelyn a'i garcharu. Tra oedd yn eu gell fach, wedi'i amddifadu o'i holl bleserau daearol ac yn dioddef rhyw salwch, fe gafodd ei droedigaeth. Fe ddechreuodd weld y cyfoeth oedd ymhlyg ym myd natur, ac wrth fyfyrion ar y byd natur, fe welodd ynddo ôl llaw Duw. Pan y'i rhyddhawyd o'r carchar, penderfynodd Ffransis werthu ei eiddo a byw bywyd syml fel mynach, a hynny yn wyneb gwrthwynebiad ei dad a'i deulu, ac yn rhyfedd, yr eglwys hefyd. Fe gymerodd arno iau Crist, a dysgodd orffwys yng nghariad Crist, dysgodd orffwys yn y cread

ac fe welodd fod popeth oedd angen arno i fyw bywyd cyflawn yno o'i amgylch. St Ffransis oedd un o'r cyntaf i sôn am y ddaear yn fam, yr haul yn frawd, y dŵr yn chwaer iddo. Fe welodd y rhwydwaith cymhleth yr oedd ei fywyd yn rhan ohono. Ar ddiwedd ei emyn enwog i'r cread, mae'n gorffen trwy ddweud; "Molwch a bendithwch yr Arglwydd diolchwch iddo: a gwasanaethwch ef mewn gostyngeddwrwydd mawr".

A beth yw ein hymateb ninnau i'r her amgylcheddol sydd yn ein hwynebu? Fe allwn ni ddiflasu'n syth a dweud bod y dasg yn ormod inni a byw ar gyfer heddiw yn unig. Fe allwn edrych eto ar y greadigaeth, a chwilio am ôl Duw ynddi, a gweld ein lle ni, a'n cyfrifoldebau ni fel rhan o'r rhwydwaith cyfoethog sy'n cynnal bywyd y byd. Wrth gymryd iau Crist arnom, iau nad yw'n rhy drwm na chwaith yn rhy feichus, fe ddysgwn yn well sut i wasanaethu Duw trwy wasanaethu ein cyd-ddyn a gwasanaethu'r greadigaeth mewn "gostyngeddwrwydd mawr". Ein tasg yw dysgu i droedio'n ysgafn a pharchu'r cread fel rhodd i ni gan Dduw. Nid oes galwad uwch. Mae'n alwad y cawn ni i gyd ein galw iddi. Mae'n alwad y gallwn ni i gyd ymateb iddi. Amen.

Datgan ein ffydd.

Yr ydym yn perthyn i'r Creawdwr ac fe'n gwnaed ar ei lun a'i ddelw.

Yn Nuw yr ydym yn anadlu, yn Nuw yr ydym yn byw, yn Nuw yr ydym yn rhannu bywyd y cread cyfan.

Yr ydym yn perthyn i Iesu Grist, gwir ddelw'r Duw anweledig.

Ynddo ef mae Duw yn anadlu, ynddo ef mae Duw yn byw, drwyddo ef fe'n cymodir ninnau.

Yr ydym yn perthyn i'r Ysbryd Glân, sy'n rhoi i ni fywyd newydd ac sy'n nerthu ein ffydd.

Yn yr Ysbryd mae cariad yn anadlu, yn yr Ysbryd mae'r gwirionedd yn byw, ac mae anadl Duw yn ein hysgogi'n barhaus.

Yr ydym yn perthyn i'r Drindod Sanctaidd sy'n un ym mhopath ac yn Dri yn Un.

Yn Nuw y crëir pawb ohonom, yng Nghrist yr achubir pawb ohonom, yn yr Ysbryd yr unir pawb ohonom.

**Moli dy enw wnawn,
Rhoddaist eto i ni
Gynhaeaf ar fôr a thir,
Ein diolch rown i ti.**

Derbyn ein diolch am roi mor hael,

***Arglwydd, O clyw ein cri,
Heddiw'n gytûn;
Derbyn ein diolch ni.***

**Parchwn dy roddion hael
Sy'n ein cynnal ni
Bob diwrnod o'r flwyddyn faith,
Ein diolch rown i ti.**

**Diolch am Gymru'n gwlad,
Hi yw'n cartref ni,
Am iaith dlos a hanes gwiw
Ein diolch rown i ti.**

**Diolch am Iesu Grist,
Dysgodd ef i ni
I roi fel y rhoddai ef,
Ein diolch rown i ti.**

*Eddie Jones
Cff 150*

Wrth i ni ystyried holl amrywiaeth ryfeddol y greadigaeth, a lle ninnau ynddi, gweddiwn ar ein crëwr a'n cynhaliwr

Gweddiwn mewn diolchgarwch dros ein Mam y Ddaear y mae pob bywyd yn gwreiddio ynddi, ein Brawd yr Haul y mae ei ynni'n cynnal bywyd, ein Chwaer y Dŵr sy'n hadfer a'n hadfywio, ninnau a'n cyd-greaduriaid yr ydym yn byw yn eu plith, dros y rhai y'n gelwir i drin ac i gynnal yr ardd hon.

Arglwydd, gwrnado ein gweddi:

Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.

Dduw pob gallu, yr wyt yn bresennol yn y bydysawd cyfan ac yn dy holl greaduriaid. Yr wyt yn cofleidio'n dyner bopeth sy'n bod. Tywallt arnom rym dy gariad, fel y bydd i ni warchod bywyd a phrydferthwch.

Llenwa ni â thangnefedd, fel y byddwn fyw fel chwirydd a brodyr, heb achosi loes i neb.

Arglwydd, gwrando ein gweddi:

Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.

Dduw'r tlodion, cynorthwya ni i achub y rhai sydd wedi'u hepgor a'u hanghofio ar y Ddaear hon, ac sydd mor werthfawr yn dy olwg di. Tyrd ag iachâd i'n bywydau, fel y byddwn yn gwarchod y byd yn hytrach na'i wneud yn ysglyfaeth, fel y byddwn yn hau harddwch yn hytrach na llygredd a lladd. Cyffwrdd â chalonnau'r rhai sy'n ceisio ond elw i'w hunain ar draul tlodion y Ddaear.

Arglwydd, gwrando ein gweddi:

Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.

Yn ganlyniad pandemig byd-eang COVID-19, clyw cri ein tosturi, ac iachâ ein byd a'i holl greaduriaid.

Ysbrydola ein calonnau â dychymyg sanctaidd i ddeffro, wedi ein rhyddhau oddi wrth y rheidrydd i gynhyrchu a defnyddio, i ddychmygu ffordd o fyw sy'n gyfiawn a chynaliadwy, lle bydd digon gan bawb a lle adferir popeth.

Arglwydd, gwrando ein gweddi:

Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.

**Nefol Dad,
diolchwn i ti am ein cartrefi a'n teuluoedd,
am fwyd a dillad
ac am bob hapusrwydd y gall rheini
a phlant ei rannu.**

**Gofynnwn
am i'th gariad ein hamgylchynu,
a'th ofal ein hamddiffyn
ac am gael adnabod dy dangnefedd bob amser.**

**Arglwydd, yn dy drugaredd
Derbyn y gweddiâu hyn;
er mwyn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

**Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofon
Wrth feddwl am holl waith dy ddwylo di,
Yng nghân y sêr a rhu y daran ddofon,
Drwy'r cread oll, dy rym a welaf i:**

***Cân f'enaidd cân, fy Arglwydd Dduw, i ti,
Mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti;
Cân f'enaidd cân, fy Arglwydd Dduw, i ti,
mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti.***

**Wrth fynd am dro drwy'r glennydd teg a'r dolydd,
A gwrando cân yr adar yn y gwŷydd,
A bwrw trwm o gopa uchel fynydd
Yn sŵn y nant neu falm yr awel rydd.**

**Pan ddaw i'm cof i Dduw roi'i Fab heb arbed,
A'i roi yn lawn, tu hwnt i ddeall dyn,
Ar groes o'i fodd yn dwyn fy maich i'm gwared,
I faddau 'mai rhoes ef ei waed ei hun.**

**Pan ddêl y Crist â bloedd y fuddugoliaeth
A'm dwyn i dref, mor llawen fyddaf fi;
Ymgrymu yno wnafr mewn parchedigaeth,
Gan ddatgan byth, fy Nuw, mor fawr wyt ti.**

*Carl Gustaf Boberg Cyf. E. H. Griffiths
Cff 140*

Y Fendith

Bydded i Dduw, a sefydlodd ddawns y cread,
a rhyfeddod wrth lili'r maes,
sy'n trawsnewid dryswch yn drefn,
arwain ni i drawsnewid ein bywydau ninnau a bywyd
yr Eglwys i adlewyrchu gogoniant Duw yn y cread.
Amen.

Hawlfraint y Gwasanaeth Uchod.

Pwyllgor Llywio Eciwmenaid Tymor y Cread. Mae cynrychiolwyr o Gyngor Eglwysy'r Byd, Ffederasiwn Lutheraid y Byd, Y Cynghrair Efengylaidd Byd-eang, y Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang, Rhwydwaith amgylcheddol y Cymundeb Anglicanaidd, Rhwydwaith Gofal am y Cread Lausanne, Cymundeb Eglwysy Diwygiedig y Byd, Rhwydwaith Amgylcheddol Cristnogol Ewrop a Chymorth Cristnogol.
Jiwbilî i'r Ddaear 2020 Llawlyfr Dathlu – Tymor y Cread

*Mae hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr Eglwys yng Nghymru a phob gwasanaeth sydd ynddo yn eiddo Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984. Neu Y Cymun Bendigaid 2004
Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984.
Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011.
Colectau a Gweddiâu Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau.
Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003
Emynau – Caneuon Ffydd, Emynau'r Llan*

GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddio dros:

- Talaith Wganda, yr Archesgob ac Esgob Kampala, y Parchedigaf Stephen Kaziimba
- Deoniaeth Merthyr Tudful a Chaerffili, y Deon Bro, y Parchedig Ganon Steven Kirk

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 12 Hydref:

Galatiaid 4:21-5:1; Salm 113; Luc 11:29-32

Gweddiwn dros: Port Swdan (Swdan), y Gwir Barchedig Abdu Kodi

Plwyf Pontlotyn gyda Fochriw a Bargoed gyda Brithdir, y Parchedig Robert Lindsay (Ficer); John Fenton (Darllenydd Lleyg)

Dydd Mawrth 13 Hydref: Edward Gyffeswr (1066), Brenin

Galatiaid 5:1-6; Salm 119:41-48; Luc 11:37-41

Gweddiwn dros: Portsmouth (Lloegr), y Gwir Barchedig Christopher Foster

Plwyf Gelligaer, y Parchedig Gary Powell (Ficer), Carolyn Corbyn (Darllenydd Lleyg)

Dydd Mercher 14 Hydref: Esther Ioan (1960), Cenhadwraig a Merthyr

Galatiaid 5:16-25; Salm 1; Luc 11:42-46

Gweddiwn dros: Pretoria (De Affrica), y Gwir Barchedig Allan Kannemeyer

Swyddog Datblygu Ardaloedd Gweinidogaeth

Dydd Iau 15 Hydref: Teresa o Afila (1582), Athrawes ffydd

Effesiaid 1:1-10; Salm 98; Luc 11:47-54

Gweddiwn dros: Puerto Rico (yr Eglwys Esgobol), y Gwir Barchedig Rafael Maldonado

Plwyf Treharris, Trelewis, Bedlinog a Llanfabon, y Parchedig Gareth Coombes (Ficer); Dr Fiona Parsons (Darllenydd Lleyg)

Dydd Gwener 16 Hydref: Daniel Rowland (1790), Offeiriad a Phregethwr

Effesiaid 1:11-14; Salm 33; Luc 12:1-7

Gweddiwn dros: Pune (Gogledd India), y Gwir Barchedig Sharad Gaikwad

Plwyf Ystrad Mynach a Llanbradach, y Parchedig Ganon Steven Kirk (Ficer)

Dydd Sadwrn 17 Hydref: Ignatius (c117), Esgob a Merthyr

Galatiaid 1:15-23; Salm 8; Luc 12:8-12

Gweddiwn dros: Qu'Appelle (Canada), y Gwir Barchedig Robert Hardwick

Plwyf Dowlais a Phen-y-darren, y Parchedig Caroline Owen (Ficer)